



Bwletin GwE




Diolch Ysgolion Thank You Schools



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Canolfan Gefnogaeth GwE

Mae canolfan gefnogaeth GwE wedi cael ei hail wampio! Mae'r safle newydd bellach yn fyw ac yn cynnwys yr holl adnoddau sydd wedi eu creu gan ysgolion y rhanbarth i gefnogi'r dysgu drwy'r cyfnod heriol hwn ac hefyd yr adnoddau sydd wedi'u creu gan GwE i gefnogi ysgolion a dysgwyr. Bydd y ganolfan yn cael ei defnyddio i rannu adnoddau gydag ysgolion o hyn ymlaen ac yn cael ei diweddarau yn rheolaidd, felly sicrhewch eich bod yn ymweld yn aml i weld yr adnoddau diweddaraf. Mae'r ganolfan yn cynnwys dogfennau, cyflwyniadau, fideos a dolenni sydd yn ddefnyddiol ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth. Gallwch ymweld â'r ganolfan drwy fynd i [wefan GwE](#) a chlicio ar '[Canolfan Gefnogaeth GwE](#)' sydd i'w gweld ar ben y dudalen.



Canolfan Cefnogaeth GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion am yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#). Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

24/03/2021 - 30/04/2021	DYDDIAD	CYFRWNG
ANG – Gweithdy Diwrnod 2b: Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (Dwyieithog)	24/03/2021	Dwyieithog
Prosiect Asesu Ffurfiannol / Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION MÔN)	24/03/2021	Cymraeg
Prosiect Asesu Ffurfiannol / Shirley Clarke – CYFARFOD ADOLYGU HAEN 3 (YSGOLION CONWY)	25/03/2021	Dwyieithog
360 Safe Cymru - Gweminar fyw /ar alw (Dwyieithog)	14/04/2021	Dwyieithog
360 Safe Cymru - Gweminar fyw /ar alw (Cyfrwng Cymraeg)	14/04/2021	Cymraeg
360 Safe Cymru - Gweminar fyw / ar alw (Cyfrwng Saesneg)	15/04/2021	Saesneg
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (Cyfrwng Saesneg)	28/04/2021	Saesneg
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (Cyfrwng Cymraeg)	29/04/2021	Cymraeg

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Hyfforddiant Proffesiynol ar Addysg Ariannol

Gwahoddir pob ymarferydd sydd yn gweithio gyda dysgwyr 9 i 12 oed i gymryd rhan ym mhrosiect Braenaru Cymru. Bwriad y prosiect yw rhoi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol er mwyn cefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol. Ariennir y prosiect gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ac fe'i gyflwynir gan Young Money gyda chymorth GwE dros dymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Darperir hyfforddiant, adnoddau a chymorth parhaus yn rhad ac am ddim i bawb a fydd yn cymryd rhan, a thelir costau llanw hefyd. Am fwy o wybodaeth, cliciwch [yma](#)



Dyfodol Byd-eang GwE ITM

Gweithdai Creadigedd ac Ieithoedd Ar-lein

CYFLEOEDD HYFFORDDIANT I ATHRAWON Y CYFNOD SYLFAEN, CA2 A CA3

Bydd Janet Lloyd a'i thim gwych o'r *Primary Languages Network* yn cynnal cyfres o weithdai ar lein AM DDIM ar Greadigedd a Dysgu Iaith.

Mae'r gweithdai yn addas i'r Cyfnod Sylfaen hyd at y cyfnod pontio i CA3.

Bydd y gweithdai wedi'u recordio o flaen llaw fel y gall athrawon eu gwyllo yn eu hamser eu hunain.

Caiff y fideos eu rhyddhau pob bore am 8 o'r gloch, o'r 1^{af} i'r 5^{ed} o Ebrill.

Bydd hefyd sesiynau holi ac ateb byw ar Facebook gyda'r nos.

Dilynwch y [ddolen hon](#) i gofrestru i gael gweld y sesiynau wedi'u recordio.



Cylchlythyr Dyfodol Byd-eang

Mae'r rhifyn diweddaraf o gylchlythyr Dyfodol Byd-eang GwE ar gael yn awr.

[SECTOR CYNRADD](#) | [SECTOR UWCHRADD](#)

Prosiect Asesu Ffurfiannol / Shirley Clarke

CYFARFODYDD ADOLYGU YSGOLION HAEN 3 - MAWRTH 2021

Estynnir gwahoddiad i athrawon ysgolion Haen 3 y prosiect ymuno â ni mewn cyfarfodydd adolygu er mwyn rhannu profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen i'r dyfodol. Bydd cyfleoedd i ystyried asesu ffurfiannol yng nghyd-destun dysgu cyfunol, ac hefyd addysgeg yn ein paratodau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Cynhelir y cyfarfodydd o 3:15 hyd 4:30 ar y dyddiau canlynol:

- 24 Mawrth - ysgolion Môn
- 25 Mawrth - ysgolion Conwy



Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

• 15 Ebrill • 10 Mai • 8 Mehefin

I gael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Adnoddau STEM

Ydych chi'n chwilio am ffordd gyflym a hawdd o gael gwybod am adnoddau am ddim i'ch cefnogi i addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg? Mae GwE yn gweithio gyda STEMpowered Learning i roi fersiwn ddwyieithog i ysgolion o'r diweddariad rheolaidd hwn am adnoddau. Cofrestrwch ar gyfer ein taenlen fisol am ddim yma: <http://eepurl.com/dMy9VQ>



Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

UWCHGYNHADLEDD ADDYSG Y BYD: Cyfle unigryw i ymarferwyr Cymru



- Mae cofrestru ar agor ar gyfer Uwchgynhadledd Addysg y Byd a gynhelir ar-lein rhwng 22-25 Mawrth 2021.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyfle unigryw i weithlu addysg Cymru fynychu'r gynhadledd flaenllaw hon - gan dalu holl gostau cofrestru grwpiau allweddol o'r gweithlu.
- Gall mynychwyr glywed gan dros 350 o siaradwyr o safon fyd-eang - fel John Hattie, Dylan William, Jenni Donohoo, Pak Tee NG, Sugata Mitra, Shirley Clarke a Michael Fullan.
- Ymhlith y themâu allweddol mae technoleg addysg, addysgeg, cwrwclwm ac asesu, gwybyddiaeth, gwerthoedd a diwylliant.
- Ddim yn gallu mynychu'r dyddiadau hynny? Ddim yn broblem. Ar ôl cofrestru, mae gennych fynediad am flwyddyn i fwy na 150 awr o gynnwys a gweithgareddau gan y siaradwyr trwy Summit Central.
- Cofrestrwch gan ddefnyddio tudalen gofrestru Llywodraeth Cymru yn unig neu codir tâl ar eich ysgol
- Rydym wedi sicrhau nifer penodol o lefydd, ac mae'r rhain ar sail y cyntaf i'r felin - felly cofrestrwch cyn gynted ag y gallwch.
- Gallwch gofrestru unrhyw bryd rhwng nawr a diwedd mis Mawrth - felly hyd yn oed os na allwch chi fod yn bresennol, gallwch chi gael gafael ar yr adnoddau.

Tudalen gofrestru:

[Cymraeg](#) a [Saesneg](#)

Gwefan yr Uwchgynhadledd i chi gael mwy o wybodaeth am y rhaglen:

<https://www.worldedsummit.com/>

Sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol

Mae'r [dull ysgol gyfan](#) yn ymwneud â chefnogi lles emosiynol a meddyliol da drwy sefydlu cydberthnasau cryfach:

- rhyngoch chi a'ch athrawon; a
- rhwng rhieni, teuluoedd, gofalgwyr, ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r ysgol

Mae ein fframwaith statudol newydd yn cefnogi pawb i sicrhau bod iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol pob dysgwr ac aelod o staff wrth wraidd pob ysgol.

Wythnos Wyddoniaeth Prydain

Fel rhan o **Wythnos Wyddoniaeth Prydain**, mae Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o fideos gan ymchwilyr blaenllaw rhaglen Sêr Cymru ledled Cymru. Rhaglen gyllid sy'n dod â thalent wyddonol i swyddi ymchwil yng Nghymru o bob cwr o'r byd er 2012 yw Sêr Cymru, rhaglen uchel ei pharch sy'n werth miliynau o bunnoedd.

Rydym am wahodd dysgwyr ac athrawon i edrych ar y sesiynau hyn er mwyn dysgu rhagor am yr ymchwil y mae prif ymchwilyr gwyddonol Cymru yn gweithio arno. Mae'r fideos hyn yn targedu dysgwyr Safon Uwch/UG Blynyddoedd 12 ac 13 yn benodol ac yn gymysgedd o weminarau a sgysiau byr.


Bydd y fideos ar gael ar [wefan Hwb](#) o 8 Mawrth 2021. Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Wythnos Ffocws Grant Datblygu Disgyblion

22 - 26 MAWRTH 2021

Digwyddiad Cenedlaethol wythnos gyfan i ddatllo, rhannu a llywio'r defnydd o'r GDD, [cliciwch yma](#) i weld holl ddigwyddiadau'r wythnos hon.



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

★ **NEGES AR GYFER YSGOLION A LLEOLIADAU SYDD HEB GOFRESTRU I GYMRYD RHAN MEWN RHAGLEN PORI DRWY STORI Y FLWYDDYN HON (IONAWR 2021- GORFFENNAF 2021) ★**




Rhaglen Pori Drwy Stori

Os wnaethoch chi golli'r dyddiad cau i gofrestru i gymryd rhan yn y rhaglen, dydy hi ddim yn rhy hwyr!

Mae'r rhaglen ar gyfer plant sydd yn eu dau dymor olaf cyn dechrau'r dosbarth Derbyn ac mae wedi ei chynllunio i gefnogi deilliannau llafaredd a hybu rhieni/gofalwyr i chwarae rôl weithredol yn nysgu eu plant.

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly dyrannir yr adnoddau ar sail y cyntaf i'r felin.

Er mwyn cofrestru i gymryd rhan yn rhaglen Feithrin Pori Drwy Stori a derbyn 2 becyn o adnoddau am ddim, llenwch cysylltwch â : poridrwystori@booktrust.org.uk.



Ymgyrch #AmserIodYnGaredig Canolfan Gefnogi Profiadau Niweidiol mewn Plentynod i Gymru



Rydym angen eich cefnogaeth i'n helpu i wneud Cymru'n genedl fwy caredig! Mae hyn yn bwysicach nawr yn fwy nag erioed! Sut allwch chi gymryd rhan?

- Rhannwch rai o'n negeseuon â'ch cynulleidf, neu casglwch straeon caredigrwydd gan eich cydweithwyr a rhannwch ar draws y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #TAmserIodYnGaredig a thagiau @acehubwales.
- Rhannwch ar draws eich rhwydweithiau/grwpiau - po fwyaf y sylw y gorau.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



PSQM Cymru – Lleoedd â chymhorthdal ar gael nawr



Rhaglen DPP yw Nod Ansawdd Gwyddoniaeth Gynradd (PSQM) sy'n arwain at achrediad er mwyn dangos a dathlu ymrwymiad ysgol gynradd i wyddoniaeth mewn cwricwlwm eang a chytbwys. Mae PSQM yn darparu hyfforddiant, mentora a chymorth fel bod arweinwyr pwnc gwyddoniaeth yn gallu datblygu a chryfhau eu harfer fel arweinwyr, gwella pob agwedd ar ddysgu ac addysgu gwyddoniaeth a chodi proffil gwyddoniaeth yn eu hysgol.

Mae ein harweinwyr hwb PSQM arbenigol yn cyflwyno'r rhaglen i ysgolion yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Ymddiriedolaeth Wellcome, wrth gydnabod effaith hirdymor a chynaliadwy PSQM, wedi rhoi arian etifeddol i PSQM er mwyn cefnogi addysgu gwyddoniaeth gynradd yng Nghymru. Mae'r arian hwn wedi galluogi PSQM i roi 60 o fwrariaethau o £500 i ysgolion cynradd yng Nghymru allu cymryd rhan yn PSQM, gan leihau'r gost gyffredinol i ysgolion o £850 i £350. Gall ysgolion ddewis dechrau PSQM naill ai yn Hydref 2021 neu Wanwyn 2022, ond mae'n rhaid i ysgolion wneud cais cyn 30 Mehefin 2021.

Nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau sydd ar gael, felly cofrestrwch eich diddordeb drwy anfon e-bost i psqm@herts.ac.uk neu ewch i www.psqm.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.



Y Cliciadur

Mae rhifyn mis Mawrth 2021 o'r Cliciadur wedi'i ryddhau. [Cliciwch yma](#) am nifer o erthyglau a gweithgareddau i'w cynnal yn y dosbarth neu'n annibynnol o gartref.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dewiswch eich Dyfodol, Cymraeg yn y Gweithle

Mae'n bleser gan [Gyrfa Cymru](#) eich gwahodd chi a'ch disgyblion i ddigwyddiad digidol Dewiswch eich Dyfodol, Cymraeg yn y Gweithle.

Mae'r digwyddiad gyrfaedd am ddim hwn wedi ei anelu at ddisgyblion ym mlwyddyn 10 ac uwch mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a disgyblion sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r digwyddiad hefyd yn agored i fyfyrwyr coleg. Nod y digwyddiad yw gwneud disgyblion yn ymwybodol o'r math o swyddi y gallant eu gwneud gan ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'u hannog i barhau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Cliciwch [yma](#) i ymuno â'r sesiwn ar y diwrnod. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â marchnata@gyrfacymru.llyw.cymru



Sesiynau Carlam Cymru - e-sgol

Mae pandemig Covid wedi arwain at fyfyrwyr ledled Cymru yn colli allan ar rai agweddau a'r cyfle i wella eu sgiliau mewn amryw o bynciau TGAU, UG a Safon Uwch.

Bydd y sesiynau/gweminarau hyn yn cael eu darlledu'n fyw ar Microsoft Teams ac yn cael eu hwyluso gan athrawon o bob rhan o Gymru sydd ag arbenigedd yn y pwnc y byddan nhw'n ei gyflwyno. Bydd y sesiynau a gyflwynir yn cael eu recordio a gellir eu defnyddio yn ddiweddarach.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys pa bryd y cynhelir y sesiynau, ewch i'r wefan [hon](#) neu dilynwch y cyfarwyddiadau ar y [poster](#).



post@gwegogledd.cymru

